Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 31 Awst 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J A Hale | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |
| Kathryn Thomas | Pennaeth yr Uned Cefnogi Ysgolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac H M Morris

---

## 17 Penodi Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd D W W Thomas yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017-2018.

**Bu'r Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) Yn Llywyddu**

## 18 Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd J A Hale yn Is-Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017-2018.

## 19 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 20 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016 fel cofnod cywir.

**21 Trefn trafodion y gwrandawiad apêl.**

**Penderfynwyd** cofnodi Trefn Trafodion y Gwrandawiad Apêl.

**22 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.**

**Penderfynwyd** nodi Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe.

**23 Llywodraeth Cymru - Cludiant Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.**

**Penderfynwyd** nodi Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.

**24 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**25 Apêl Cludiant i'r Ysgol.**

**Penderfynwyd** gohirio'r cyfarfod tan 10.30am.

Clywodd y pwyllgor apêl ar y cyd gan y rhieni JE ac AF. Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran i ddynodi'r llwybr cerdded i'r ysgol rhwng Pontlliw ac Ysgol Gyfun Pontarddulais fel 'ar gael'.

**Penderfynwyd Gwrthod** apêl JE ac AF.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.53 am

**Cadeirydd**